**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2011

Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfau, a elwir yn "Ddeddfau'r Cynulliad", yn y meysydd lle mae ganddo bwerau deddfwriaethol. Nodir y pwerau hyn yn yr 20 Maes yn Atodlen 7 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Diben y papur hwn yn rhoi trosolwg manwl o'r pwerau hynny ynghyd ag amlinelliad o'r eithriadau a'r cyfyngiadau cyffredinol sy'n gymwys i bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/1085

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Pwerau deddfu
# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/008

Gwasanaeth
Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ........ 1**

2.1. Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig ........ 2
2.2. Henebion ac adeiladau hanesyddol ........ 3
2.3. Diwylliant ........ 4
2.4. Datblygu economaidd ........ 5
2.5. Addysg a Hyfforddiant ........ 7
2.6. Yr amgylchedd ........ 8
2.7. Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân ........ 9
2.8. Bwyd ........ 10
2.9. Iechyd a Gwasanaethau Iechyd ........ 11
2.10. Priffyrdd a thrafnidiaeth ........ 12
2.11. Tai ........ 14
2.12. Llywodraeth Leol ........ 15
2.13. Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 16
2.14. Gweinyddiaeth Gyhoeddus ........ 17
2.15. Lles Cymdeithasol ........ 18
2.16. Chwaraeon a hamdden ........ 19
2.17. Twristiaeth ........ 20
2.18. Cynllunio gwlad a thref ........ 21
2.19. Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd ........ 22
2.20. Y Gymraeg ........ 23

**3. Cyfyngiadau cyffredinol ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol ........ 24**

# Pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## 1. Cyflwyniad

O dan Adran 4 o *Ddeddf Llywodareth Cymru 2006* (“Deddf 2006”)[1] caiff y Cynulliad Cenedlaethol basio deddfau, a elwir yn “Ddeddfau’r Cynulliad” (neu “Filiau’r Cynulliad” yn eu ffurf arfaethedig), yn y meysydd lle mae ganddo bwerau deddfwriaethol. Nodir y pwerau deddfwriaethol hyn yn yr 20 Maes yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006.

Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg manwl o’r pwerau deddfwriaethol hynny ynghyd ag amlinelliad o’r eithriadau a’r cyfyngiadau cyffredinol sy’n gymwys i bwerau’r Cynulliad Cenedlaethol.[2]

## 2. Pwerau deddfu’r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Isod ceir tablau unigol ar gyfer pob un o’r 20 Maes sydd wedi’u cynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 7 o Ddeddf 2006 ynghyd ag eithriadau sy’n gymwys. Er fod yr eithriadau a geir wedi’u rhestru fesul maes pwnc unigol, maent yn gymwys drwy bob un o’r 20 Pwnc.

Os nad yw maes polisi wedi ei gynnwys o fewn un Pwnc neu fwy o’r rhai a restrir (neu os yw wedi ei nodi’n benodol fel eithriad i bwerau’r Cynulliad neu gyfyngiad arnynt), ni all y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu mewn perthynas â’r maes polisi hwnnw.

Mae modd diwygio Meysydd o fewn Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn ddiweddarach drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Byddai modd i Orchymyn o’r fath newid pwerau deddfu’r Cynulliad Cenedlaethol drwy:

- ychwanegu pynciau newydd;
- ehangu neu gadarnhau pynciau presennol; neu
- cael gwared o eithriadau.

Byddai’n rhaid i Orchymyn o’r fath yn y Cyfrin Gyngor gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig, a’i gymeradwyo ganddynt.

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32)
[2] Mae rhestr o’r termau a ddefnyddir yn y papur hwn ar gael yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: Geirfa.

## *2.1. Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig*

**Pwerau deddfwriaethol**

Amaethyddiaeth;

Garddwriaeth;

Coedwigaeth;

Pysgodfeydd a physgota;

Iechyd a lles anifeiliaid;

Amrywiaethau planhigion a hadau; a

Datblygu gwledig.

**Eithriadau**

Hela â chwn;

Rheoleiddio gweithdrefnau gwyddonol neu weithdrefnau arbrofol eraill ar anifeiliaid;

Rheoli mewnforio ac allforio, a rheoleiddio symud anifeiliaid, planhigion a phethau eraill **ar wahân** i symud y canlynol i mewn ac allan o Gymru ac o fewn Cymru:

- Anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill sy'n berthnasol iddynt ar gyfer dibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu o ran cydymffurfio neu weithredu ymrwymiadau o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- Bwyd anifeiliaid, gwrteithiau a phlaladdwyr ar gyfer dibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion neu ddiogelu'r amgylchedd.

Awdurdodi meddyginiaethau milfeddygol a chynnyrch meddyginiaethol.

## *2.2. Henebion ac adeiladau hanesyddol*

**Pwerau deddfu**

Gweddillion archaeolegol;

Henebion;

Adeiladau a lleoedd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaenïol; a

Gweddillion llongddrylliadau hanesyddol

**Eithriadau**

Dim

## *2.3. Diwylliant*

**Pwerau deddfu**

Celf a chrefft;

Amgueddfeydd ac orielau;

Llyfrgelloedd;

Archifau a chofnodion hanesyddol; a

Gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol.

**Eithriadau**

Hawl fenthyca gyhoeddus;

Darlledu;

Dosbarthiad ffilmiau a recordiadau fideo;

Indemniadau'r Llywodraeth ar gyfer gwrthrychau ar fenthyg; a

Taliadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng nghyswllt eiddo a dderbyniwyd yn lle treth, **ac eithrio** eiddo sydd o ddiddordeb cenedlaethol Cymreig.

## *2.4. Datblygu economaidd*

**Pwerau deddfu**

Adfywio a datblygu economaidd; a

Hybu busnes a chystadleurwydd.

**Eithriadau**

Polisi cyllidol, economaidd ac ariannol a rheoleiddio masnach rhyngwladol;

Rheoleiddio arferion a chytundebau gwrthgystadleuol, camddefnyddio safle trech a monopolïau ac uno cwmnïau;

Eiddo deallusol, **ar wahân** i amrywiaethau planhigion;

Creu, gweithrediadu, rheoleiddo a diddymu mathau o gymdeithasau busnes;

Methdaliad;

Safonau a diogelwch cynnyrch a'r atebolrwydd amdanynt, **ar wahân** mewn perthynas â bwyd, cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, gwrteithiau a phlaladdwyr;

Diogelu cwsmeriaid, gan gynnwys gwerthu a chyflenwi nwyddau i gwsmeriaid, gwarantau cwsmeriaid, hurbwrcasu, disgrifiadau masnachol, hysbysebu a dynodiadau pris, **ar wahân** mewn perthynas â bwyd, cynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol, hadau, gwrteithiau a phlaladdwyr;

Gwasanaethau ariannol, gan gynnwys busnes buddsoddi, bancio a chymryd adneuon, cynlluniau buddsoddi cyfunol ac yswiriant;

Cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol (gan gynnwys cynlluniau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer colli swydd neu gyflogaeth, iawndal am golli enillion neu ostyngiad mewn enillion, neu fudd-daliadau mewn perthynas â marwolaeth neu analluedd sy'n deillio o anaf neu afiechyd), **ar wahân** i gynlluniau ar gyfer, neu mewn perthynas ag Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a benodir o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol neu Ddirprwy Weinidogion Cymru a chynlluniau ar gyfer neu mewn perthynas ag aelodau awdurdodau lleol.

Y marchnadoedd ariannol, gan gynnwys rhestru a chynigion cyhoeddus o sicradau a buddsoddiadau, trosglwyddo sicradau, masnachu mewnol a gwyngalchu arian;

Telegyfathrebu, telegraffi di-wifr, gwasanaethau rhyngrwyd ac amgryptio electronig;

Gwasanaethau post, swyddfeydd post a Swyddfa'r Bost, **ar wahân** i gymorth ariannol ar gyfer darparu gwasanaethau gan swyddfeydd post cyhoeddus;

Cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan;

Arbed ynni, **ar wahân** i annog defnyddio ynni'n effeithlon ac eithrio drwy wahardd neu reoleiddio;

Glo, gan gynnwys mwyngloddio ac ymsuddiant, **ar wahân** i adfer tir a materion amgylcheddol eraill;

Olew a nwy **ar wahân** i lygredd;

Ynni niwclear a gosodiadau niwclear gan gynnwys diogelwch niwclear ac atebolrwydd dros ddigwyddiadau niwclear, ond nid yw'n cynnwys gwaredu gwastraff isel iawn ei ymbelydredd sydd wedi ei symud o safle y mae'n ofynnol iddo gael trwydded niwclear;

Unedau a safonau pwyso a mesur a rheolieddio masnach sy'n ymwneud â phwyso, mesur a niferoedd; ac

Y Bwrdd Cynghori ar Ddatblygu Diwydiannol.

## *2.5. Addysg a Hyfforddiant*

**Pwerau deddfu**

Addysg;

Hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol;

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd; a

Hyrwyddo dyrchafu a chymhwyso gwybodaeth.

**Eithriadau**

Cynghorau ymchwil.

## *2.6. Yr amgylchedd*

**Pwerau deddfu**

Gwarchodaeth amgylcheddol, gan gynnwys llygredd, niwsansau a sylweddau peryglus;

Atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff ;

Draenio tir a gwella tir;

Cefn gwlad a mannau agored (gan gynnwys dynodi a rheoleiddio parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol);

Cadwraeth natur a mannau o ddiddordeb gwyddonol arbennig;

Diogelu cynefinoedd naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd forol (gan gynnwys gwely'r môr);

Bioamrywiaeth;

Organebau a addaswyd yn enetig;

Mân-ddaliadau a rhandiroedd;

Tir comin;

Meysydd tref neu bentref; a

Claddu ac amlosgi, ar wahân i swyddogaethau'r crwner.

**Eithriadau**

Dim.

## *2.7. Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân*

**Pwerau deddfu**

Gwasanaethau tân ac achub;

Darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd a mangreoedd a drosir o'r newydd at ddibenion preswyl; a

Hyrwyddo diogelwch tân trwy ddulliau ar wahân i wahardd neu reoleiddio**.**

**Eithriadau**

Dim.

## *2.8. Bwyd*

**Pwerau deddfu**

Bwyd a chynhyrchion bwyd;

Diogelwch bwyd (yn cynnwys deunydd pacio bwyd a deunyddiau eraill sy'n dod i gysylltiad â bwyd); a

Diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

**Eithriadau**

Dim.

## *2.9. Iechyd a Gwasanaethau Iechyd*

**Pwerau deddfu**

Hybu iechyd;

Atal, trin a lleddfu afiechyd, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddyliol;

Rheoli afiechydon;

Cynllunio teuluol;

Darparu gwasanaethau iechyd gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau meddygol, deintyddol, ophthalmig, fferyllol ac ategol;

Llywodraethiant clinigol a safonau gofal iechyd; a

Threfnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol.

**Eithriadau**

Erthylu;

Geneteg ddynol, ffrwythloniad dynol, embryoleg ddynol, trefniadau benthyg croth;

Senodrawsblannu (trawsblannu rhwng anifeiliaid a phobl);

Rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol (gan gynnwys personau sy'n cyflenwi cymhorthion clyw);

Gwenwynau;

Camddefnyddio a delio cyffuriau;

Meddyginiaethau dynol a chynnyrch meddyginiaethol, gan gynnwys awdurdodi'r defnydd ohonynt a rheoleiddio'u prisiau;

Safonau ar gyfer sylweddau biolegol, a'u profi;

Taliadau niwed drwy frechiad;

Bwydydd lles;

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaeth Cynghori Meddygol ar Gyflogaeth a'r darpariaethau a wneir gan reoliadau iechyd a diogelwch.

## *2.10. Priffyrdd a thrafnidiaeth*

**Pwerau deddfu**

Priffyrdd, gan gynnwys pontydd a thwneli;

Gwaith stryd;

Rheoli a rheoleiddio traffig; a

Gwasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth.

**Eithriadau**

Cofrestru gwasanaethau bysiau lleol a gosod a gorfodi amodau rheoleiddio traffig mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny;

Gwasanaethau cludo nwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys trwyddedu gweithredwyr cerbydau nwyddau;

Rheoleiddio adeiladu cerbydau modur a threlars a'u cyfarpar, a rheoleiddio'r defnydd o gerbydau a threlars ar y ffordd, **ar wahân** i unrhyw reoleiddio sy'n berthnasol i gynlluniau i godi taliadau mewn perthynas â defnyddio neu gadw cerbydau modur ar gefnffyrdd Cymru; neu sy'n ymwneud â disgrifio cerbydau modur neu drelars y gellir eu defnyddio o dan drefniadau i bersonau deithio yn ôl ac ymlaen o lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant;

Rheoleiddio'r defnydd o gerbydau modur a threlars sy'n cludio anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, lles anifeiliaid, neu'r amgylchedd;

Tramgwyddau traffig ffyrdd;

Trwyddedu gyrwyr;

Hyfforddiant gyrru;

Yswirio cerbydau modur;

Oriau gyrwyr;

Rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig, **ar wahân** i reoleiddio sy'n ymwneud â chynlluniau codi taliadau ar gefnffyrdd;

Croesfannau i gerddwyr;

Arwyddion traffig, **ar wahân** i osod a chynnal a chadw arwyddion traffig sy'n ymwneud â chynlluniu codi taliadau ar gefnffyrdd;

Terfynau cyflymder;

Gwasanaethau trafnidiaeth ffordd rhyngwladol ar gyfer teithwyr;

Trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus;

Dogfennau mewn perthynas â cherbydau a gyrwyr ar gyfer dibenion teithio dramor a cherbydau sy’n dod i Gymru dros dro gan bersonau sy’n byw y tu allan i’r DU;

Treth ar gerbydau a chofrestru cerbydau;

Darparu a rheoleiddio gwasanaethau rheilffyrdd **ar wahân** i gymorth ariannol nad yw mewn cysylltiad â chludo nwyddau, nad yw’n cael ei wneud mewn cysylltiad â gorchymyn gweinyddu rheilffyrdd, ac nad yw’n cael ei wneud mewn cysylltiad â Rheoliad y Cyngor (y GEE) Rhif 1893/91 ynghylch ymrwymiad gwasanaeth cyhoeddus mewn trafnidiaeth;

Diogelwch trafnidiaeth **ar wahân** i reoleiddio sy'n ymwneud â chludo oedolion sy’n goruchwylio personau sy’n teithio yn ôl ac ymlaen o ble maent yn cael addysg neu hyfforddiant;

Treftadaeth rheilffyrdd;

Hedfan, trafnidiaeth awyr, meysydd awyr ac erodromau, **ar wahân** i gymorth ariannol, strategaethau gan Weinidogion Cymru a/neu awdurdodau lleol a rheoleiddio'r defnydd o awyrennau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, lles anifeiliaid, neu’r amgylchedd;

Llongau, **ar wahân** i gymorth ariannol a rheoleiddio'r defnydd o lestrau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, lles anifeiliaid, neu’r amgylchedd;

Hawliau a rhyddidau mordwyo, **ar wahân** i reoleiddio gwaith a allai rwystro neu beryglu mordwyaeth;

Safonau technegol a diogelwch llestrau;

Harbyrau, dociau, glanfeydd a llithrffyrdd i gychod, **ar wahân** i’r rheini a ddefnyddir neu y mae’n ofynnol eu cael yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y diwydiant pysgota, ar gyfer hamddena neu ar gyfer cysylltu rhwng mannau yng Nghymru (neu at ddau neu fwy o’r dibenion hynny), a rheoleiddio at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, lles anifeiliaid, neu'r amgylchedd;

Cludo nwyddau peryglus, (gan gynnwys cludo deunydd ymbelydrol); a

Manylebau technegol ar gyfer tanwydd i’w ddefnyddio mewn motorau tanio mewnol.

## *2.11. Tai*

**Pwerau deddfu**

Tai;

Ariannu tai ac eithrio cynlluniau sy'n cael cefnogaeth o gronfeydd canolog neu leol sy'n darparu cymorth ar gyfer dibenion diogelwch cymdeithasol i unigolion ar ffurf budd-daliadau neu mewn perthynas â hwy;

Hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni a chadwraeth yn y cartref;

Rheoleiddio rhent;

Digartrefedd; a

Charafannau preswyl a chartrefi symudol.

**Eithriadau**

Dim

## *2.12. Llywodraeth Leol*

**Pwerau deddfu**

Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol;

Trefniadau etholiadol awdurdodau lleol;

Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion; ac

Ariannu llywodraeth leol**.**

**Eithriadau**

Yr etholfraint llywodraeth leol;

Cofrestru a gweinyddu etholiadol;

Cofrestru genedigaethau, priodasau, partneriaethau sifil a marwolaethau;

Trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyr y nos;

Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol;

Pridiannau tir lleol, **ar wahân** i ffioedd;

Masnachu ar y Sul; a

Darparu cyngor a chymorth dramor gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad â gweithgawrch llywodraeth leol yno.

## *2.13. Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Pwerau deddfu**

Cwynion am Aelodau'r Cynulliad;

Comisiwn y Cynulliad;

Cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i neu o ran Aelodau Cynulliad, y Prif Weinidog, unrhyw un o Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol ac unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru;

Cofrestru buddiannau Aelodau'r Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol;

Darparu am ystyr geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn Mesurau a Deddfau'r Cynulliad, is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesurau a Deddfau'r Cynulliad, ac is-ddeddfwriaeth nas gwneir felly ond a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol;

Deddfwriaeth breifat yn y Cynulliad;

Cymorth ariannol i grwpiau gwleidyddol y mae Aelodau'r Cynulliad yn perthyn iddynt;

Sêl Cymru;

Trefniadau ar gyfer argraffu Deddfau'r Cynulliad, is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesurau a Deddfau'r Cynulliad, ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.

**Eithriadau**

Dim

## *2.14. Gweinyddiaeth Gyhoeddus*

**Pwerau deddfu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

Archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy ;

Ymchwiliadau, o ran materion y mae Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hwy;

Cyfle cyfartal mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus cyfle cyfartal; a

Mynediad at wybodaeth a gaiff ei dal gan awdurdodau cyhoeddus mynediad agored.

**Eithriadau**

Rheoleiddio'r proffesiwn o fod yn archwilydd.

## *2.15. Lles Cymdeithasol*

**Pwerau deddfu**

Lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol;

Amddiffyn plant a'u lles (gan gynnwys mabwysiadu a maethu oedolion ifanc);

Gofal plant, oedolion ifanc, personau hyglwyf a phersonau hyn, gan gynnwys safonau gofal;

Bathodynnau i'w harddanogs ar gerbydau modur gan bersonau anabl.

**Eithriadau**

Cymorth i blant;

Cronfeydd ymddiriedolaeth plant, **ar wahân** i danysgrifiadau i gronfeydd o'r fath gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu Weinidogion Cymru;

Credydau treth;

Budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad;

Nawdd cymdeithasol;

Cronfeydd byw'n annibynnol;

Motability;

Mabwysiadu rhwng gwledydd, ar wahân i asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau, a swyddogaethau'r "Awdurdod Canolog";

Y Comisiynydd Plant; a

Cyfraith teulu ac achosion teuluol ar wahân i gyngor i'r llysoedd ynghylch lles, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru a'u teuluoedd, a swyddogion achosion teuluol Cymru.

## *2.16. Chwaraeon a hamdden*

**Pwerau deddfu**

Cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

**Eithriadau**

Betio, hapchwarae a loterïau.

## *2.17. Twristiaeth*

| **Pwerau deddfu** |
| --- |
| Twristiaeth |
| **Eithriadau** |
| Dim |

## *2.18. Cynllunio gwlad a thref*

**Pwerau deddfu**

Cynllunio gwlad a thref gan gynwys adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth;

Meysydd carafannau;

Cynllunio gofodol;

Gweithfeydd mwynol;

Datblygu trefol;

Trefi newydd; a

Diogelu harddwch gweledol.

**Eithriadau**

Swyddogaethau'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith neu unrhyw un o'i aelodau o dan *Ddeddf Cynllunio 2008(a)*.[3]

[3] Planning Act 2008

## 2.19. *Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd*

**Pwerau deddfu**

Cyflenwi dŵr;

Rheoli adnoddau dŵr (gan gynnwys cronfeydd dŵr), ansawdd dŵr a chynrychioli cwsmeriaid gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ; a

Rheoli risg llifogydd a diogelu'r arfordir.

**Eithriadau**

Penodi a rheoleiddio unrhyw ymgymerwr dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru; a

Trwyddedu a rheoleiddio unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig o fewn ystyr *Deddf y Diwydiant Dŵr 1991*[4] **ar wahân** i reoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru**.**

[4] Water Industry Act 1991 (c.56)

## *2.20. Y Gymraeg*

| **Pwerau deddfu** |
| --- |
| Y Gymraeg |
| **Eithriadau** |
| Y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd. |

## 3. Cyfyngiadau cyffredinol ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol

Yn ogystal â'r eithriadau a geir o dan yr 20 Pwnc, mae Rhan 2 a Rhan 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn amlinellu cyfyngiadau pellach ar bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r adrannau hyn o Ddeddf 2006 yn nodi ynglŷn â Deddfau'r Cynulliad:

- bod yn rhaid iddynt fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig;
- na ddylent addasu swyddogaethau parhaus Gweinidogion y DU mewn meysydd pwnc datganoledig (na chreu rhai newydd) *oni bai* bod yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol wedi cydsynio i hynny;
- na ddylent ddiwygio rhai Deddfau Seneddol 'cyfansoddiadol' (ee Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac ati); a
- bod yn rhaid iddynt gydweddu â'r **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol** a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Felly, ni fydd Deddf y Cynulliad nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau uchod o fewn cwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Ddeddf 2006 hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod, drwy Orchymyn, Ddeddf y Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o bedair wythnos ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol basio'r Ddeddf os oes ganddo sail resymol i gredu bod y Ddeddf o fewn un neu fwy o'r categorïau a ganlyn:

- y byddai'n cael effaith niweidiol ar unrhyw fater nad yw wedi'i restru o dan yr 20 Maes yn Atodlen 7 (neu sydd o fewn y rhestr o eithriadau o dan yr Atodlen honno);
- y gallai gael effaith niweidiol difrifol ar adnoddau dŵr, y cyflenwad dŵr neu ansawdd dŵr yn Lloegr ;
- y byddai'n cael effaith niweidiol ar weithrediad y gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr; neu
- y byddai'n anghydnaws ag unrhyw oblygiadau rhyngwladol neu faterion amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.

Bydd yn rhaid i Orchymyn o'r fath nodi'r Ddeddf dan sylw a rhoi'r rhesymau dros ymyrryd. Byddai'r Gorchymyn yn ddarostyngedig wedyn i'r weithdrefn negyddol yn Senedd y DU (hy byddai'n dod i rym oni bai bod cynnig sy'n dirymu'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno a'i basio). Ni fyddai'n ddarostyngedig i unrhyw reolaeth weithdrefnol yn y Cynulliad Cenedlaethol.